# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Mawrth 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 62(v7)

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Ymateb i Erthygl 50

(45 munud)

### Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69, Simon Thomas

Bod y Cynulliad yn ystyried effaith tanio Erthygl 50 ar Gymru.

*Yn unol â Rheol Sefydlog 12.70, cynhelir pleidlais ar y cynnig ar unwaith.*

## Cwestiwn Brys

**I'r Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd:**

**Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reolaeth Chwaraeon Cymru yn y dyfodol yn dilyn y penderfyniad i roi terfyn ar swyddi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y sefydliad? EAQ(5)0154(HWS)**W**

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr ymchwiliad i ddarpariaeth o ran eiriolaeth statudol

(60 munud)

**NDM6275** Lynne Neagle (Torfaen)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar yr Ymchwiliad i Ddarparu Eriolaeth Statudol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Chwefror 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2017.

## 6 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar ddeiseb ar Ganser yr Ofari

(60 munud)

**NDM6276** Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar y ddeiseb, 'Cefnogi Sgrinio Blynyddol ar gyfer Canser yr Ofari' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Chwefror 2017.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Mawrth 2017.

## 7 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig

(60 munud)

**NDM6274**

David Rowlands (Dwyrain De Cymru)
Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cymeradwyo nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cydnabod y rôl allweddol sydd gan ysgolion o ran ei gyflawni.

2. Yn credu y bydd herio barn gyhoeddus leol yn cyfyngu ar y gobaith o lwyddo ac y dylai newidiadau i sefydliadau addysgol sy'n cwmpasu Cyfnodau Allweddol 1 i 5 gael eu gwneud mewn ffordd a gaiff ei chefnogi gan y mwyafrif o rieni, gwarcheidwaid neu drigolion lleol, sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau addysgol ar ran eu plant.

3. Yn credu bod angen i gynigion i newid ysgolion cyfrwng Saesneg, ysgolion dwy-ffrwd neu ysgolion pontio yn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu eu cau gynnwys ymgynghoriad lleol gwirioneddol:

a) gyda'r holl ymatebwyr yn darparu eu henwau, cyfeiriadau a chodau post;

b) gyda'r holl unigolion a enwir mewn deiseb a gyflwynir yn cael eu cofnodi fel sylwadau ar wahân; ac

c) nad yw'n rhoi blaenoriaeth i drydydd parti, nad yw'n gysylltiedig â'r mater, dros ddymuniadau rhieni neu drigolion lleol.

4. Yn credu bod yr ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin cyn penderfynu cau ysgol babanod ac ysgol iau ffederal dwy-ffrwd Llangennech a'u troi'n un ysgol cyfrwng Cymraeg yn un gwallus.

5. Yn credu y dylai'r cyngor ddiddymu ei benderfyniad tra cynhelir ymgynghoriad pellach ar sail yr egwyddorion a nodir ym mharagraff 3 uchod.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**1. Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyhoeddi Papur Gwyn eleni er mwyn ymgynghori ar ddarpariaethau ar gyfer Bil newydd y Gymraeg fel rhan o gynlluniau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Yn cydnabod y buddsoddiad ychwanegol yn 2017-18 i wella a chynyddu'r ddarpariaeth Cymraeg yn y gweithle a hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adolygu proses y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Yn cydnabod bod yn rhaid i awdurdodau lleol a chynigwyr eraill gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, a rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth gynnig newidiadau sylweddol i ysgolion yn eu hawdurdodaeth.

'Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013'

'Cod Trefniadaeth Ysgolion'

*[Os derbynnir gwelliant 1, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol]*

**2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1.

*[Os derbynnir gwelliant 2, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol]*

3. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu'r cyfan ar ôl pwynt 1.

4. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod cwymp wedi bod yn nifer yr athrawon Cymraeg eu hiaith sy'n dechrau yn y proffesiwn.

5. Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod y broses o gau ysgolion wedi cael effaith anghymesur ar ysgolion cyfrwng Cymraeg.

6. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi holl fanteision gwybyddol, addysgol, economaidd a chymdeithasol dwyieithrwydd.

7. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod canran y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neb newid yn y blynyddoedd diwethaf.

8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig.

Yn nodi bod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin 2014-2017, a oedd yn cynnwys y penderfyniad i sefydlu ysgol cyfrwng Cymraeg yn Llangennech, wedi'i gymeradwyo'n unfrydol gan y Cabinet o dan arweiniad Llafur ym mis Gorffennaf 2014, a bod yr holl benderfyniadau dilynol wedi'u cymeradwyo gan yr awdurdodau priodol.

'Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin 2014-2017'

## 8 Cyfnod pleidleisio

## 9 Dadl Fer (Ail-drefnwyd o 22 Mawrth)

(30 munud)

**NDM6266** Dawn Bowden (Merthyr Tydfil a Rhymni)

Undebau Credyd: Cyfraniad allweddol i fynd i'r afael ag allgáu ariannol

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6273** Steffan Lewis (Dwyrain De Cymru)

Enseffalopathi trawmatig cronig a chwaraeon - a all Cymru arwain y ffordd?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Ebrill 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22 Mawrth 2017 i'w hateb ar 29 Mawrth 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**
**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

**1.** **Vikki Howells (Cwm Cynon):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o fanteision lleoli pencadlys Trafnidiaeth Cymru yn Rhondda Cynon Taf OAQ(5)0144(EI)

**2.** **Leanne Wood (Rhondda):** Pa gynnydd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wella economi hen feysydd glo de Cymru? OAQ(5)0153(EI)

**3.** **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Cymru yn cael ei hyrwyddo mewn cynyrchiadau teledu a ffilm? OAQ(5)0143(EI)

**4.** **Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0154(EI)

**5.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r diwydiant TGCh yng Nghymru? OAQ(5)0145(EI)

**6.** **Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniad ar Gylchffordd Cymru? OAQ(5)0155(EI)

**7.** **Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddefnyddio ceir awtonomaidd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(5)0146(EI)

**8.** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu economaidd yng Ngorllewin Casnewydd? OAQ(5)0149(EI)

**9.** **Neil McEvoy (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gymorth i chwaraeon elitaidd yng Nghymru? OAQ(5)0147(EI)
**TYNNWYD YN ÔL**

**10.** **Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fasnachfraint Cymru a'r Gororau a'r Metro? OAQ(5)0158(EI)

**11.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gwblhau ffordd liniaru dwyrain y bae? OAQ(5)0151(EI)

**12.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fanteision economaidd datblygu cyfleusterau chwaraeon dan do yng Nghymru? OAQ(5)0156(EI)

**13.** **Jeremy Miles (Castell-nedd):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am rôl y diwydiannau creadigol o ran datblygu economi Cymru? OAQ(5)0150(EI)

**14.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ddatblygu rhanbarth Merswy Dyfrdwy?  OAQ(5)0157(EI)**W**

**15.** **David Melding (Canol De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth i fenywod ifanc mewn meysydd galwedigaethol nad ydynt ar agor iddynt yn aml oherwydd arferion recriwtio gwael? OAQ(5)0148(EI)

## Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon

**1.** **Leanne Wood (Rhondda):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am fynediad i'r gwasanaeth iechyd yn y Rhondda? OAQ(5)0148(HWS)

**2.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi unrhyw sicrwydd o gynyddu'r gyfran o wariant cyllideb y GIG ar ofal sylfaenol yng Nghymru? OAQ(5)0143(HWS)

**3.** **Nathan Gill (Gogledd Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ofal orthopaedig yng Ngogledd Cymru? OAQ(5)0140(HWS)

**4.** **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol? OAQ(5)0141(HWS)

**5.** **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa wasanaethau cefnogaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cleifion sydd â chyflyrau iechyd hirdymor anwadal? OAQ(5)0137(HWS)

**6.** **Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu? OAQ(5)0145(HWS)

**7.** **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am hyrwyddo ffyrdd iach o fyw? OAQ(5)0138(HWS)

**8.** **Gareth Bennett (Canol De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gostau parcio ceir mewn ysbytai yng Nghanol De Cymru? OAQ(5)0150(HWS)

**9.** **Caroline Jones (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad cleifion Cymru at dreialon clinigol yng Nghymru? OAQ(5)0152(HWS)

**10.** **Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o effaith Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ar blant yng Nghymru? OAQ(5)0151(HWS)

**11.** **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am amseroedd aros orthopaedig yng ngogledd-orllewin Cymru? OAQ(5)0146(HWS)**W**

**12.** **Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am ofal paediatrig yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0139(HWS)

**13.** **Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am unrhyw drafodaethau sydd ar y gweill gyda Chymdeithas Feddygol Prydain ar gontractau meddygon teulu yng Nghymru? OAQ(5)0149(HWS)

**14.** **Mark Reckless (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am yr effaith ar wasanaethau yng Nghymru yn sgil contractau tâl ar wahân i'r rhai yn Lloegr ar gyfer meddygon ymgynghorol? OAQ(5)0144(HWS)

**15.** **David Rowlands (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am y cynnydd o ran 'Gweledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru' sydd gan Chwaraeon Cymru? OAQ(5)0147(HWS)